Derbynnydd Amser Llawn

Cyfeirnod Swydd: PO002
Dyddiad Cau: 12fed o Chwefror 2021 am 5yh.
Cyflog: £16,777.28
Oriau: 37 awr yr wythnos Dydd Llun i Ddydd Gwener
Lleoliad: Bronaeron, Felinfach, Lampeter, Ceredigion, SA48 8AG

Mae Cymdeithas Merlod a'r Cobiau Cymreig yn bwriadu ehangu eu tîm presennol o staff swyddfa, gan gynnig swydd derbynnydd/gweinyddol amser llawn.

Rydym yn chwilio am unigolyn llawn cymhelliant, gyda llygad am fanylder; sy'n frwdfrydig neu sydd â rhywfaint o wybodaeth am y Merlod a Chobiau Cymreig. Disgwylir i'r unigolyn gynorthwyo mewn rôl weinyddol yn y swyddfa yn ogystal ag ateb llinellau ffon y Gymdeithas ac ymateb i ymholiadau dyddiol ar ebost. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn gymwys wrth ddefnyddio pecyn swyddfa Microsoft ac Outlook, gyda sgiliau gwasanaeth cwsmer cryf dros y ffôn, wyneb yn wyneb, a sgiliau ysgrifenedig cry'. Mi ddylent ddangos hyn yn ei cais ac yn ystod cyfweliad. Bydd angen dealltwriaeth o gydymffurfiaeth GDPR yn ogystal â bod yn gyfarwydd a gweithio i derfynau amser tynn o dan bwysau.

Gweler rhagor o fanylion yn y swydd ddisgrifiad.

Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol i'r swydd yma.

Bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal ar-lein drwy Microsoft Teams yn ystod yr wythnos yn dechrau 22ain o Chwefror 2021.

Dim ond ceisiadau â ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn fydd yn cael eu hystyried ar gyfer y swydd hon.

Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau at Gemma Bassett-Burr, Rheolwr Swyddfa naill ai drwy e-bost gemma@wpcs.uk.com neu trwy'r post i Gymdeithas Y Merlod a'r Cobiau Cymreig, Bronaeron, Felinfach, Lampeter, Ceredigion, SA48 8AG